AWDURDOD ADDYSG - YNYS MÔN - EDUCATION AUTHORITY

**YSGOL Y GRAIG**
**Ffordd y Coleg**
**Lon Talwrn**
**Llangefni**
**Ynys Môn / Anglesey**
**LL77 7LP**
**www.ysgolygraig.co.uk**

**Pennaeth / Headteacher**
**MEINIR L ROBERTS BAdd.**

**(01248) 723092**
**(01248) 750470**

ysg2154@ynysmon.gov.uk

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Gweler y neges isod sydd newydd ein cyrraedd gan Cyngor Ynys Môn:

Fel y byddwch yn ymwybodol, bydd gan ysgolion rôl allweddol mewn cefnogi'r sawl sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ynghlwm â'r ymateb uniongyrchol i'r achosion o goronafeirws. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio â Llywodraeth Cymru i lunio cynlluniau ar lefel leol ar sut i gyflawni hyn. Mae rhan allweddol o'r cynllunio'n cynnwys adnabod disgyblion ysgol sydd â rhieni sy'n gyflogedig yn y sectorau canlynol:

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Athrawon a staff gofal plant
- Gweithwyr cartrefi gofal
- Gweithwyr cymdeithasol
- Swyddogion yr heddlu, cynnal y gymuned, staff sifil
- Swyddogion carchar neu staff prawf (probation) eraill
- Swyddogion tân
- Cynllunwyr awdurdod lleol
- Swyddogion iechyd yr amgylchedd
- Swyddogion traffig yr Asiantaeth Priffyrdd

Fel mater brys, os ydych yn gweithio yn unrhyw un o'r sectorau uchod rhowch wybod i'r ysgol hwyrach na 2.00yh heddiw (cynhwyswch enw a dyddiad geni eich plentyn o.g.y.dd.)